*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 333(3E) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2024 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan baragraff 1 o Atodlen 4D i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("DCGTh 1990"), caniateir i swyddogaethau penodedig Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chais (neu gais arfaethedig) am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gael eu cyflawni gan berson a benodir i wneud hynny ar eu rhan ("person penodedig"). O dan baragraff 9 o'r Atodlen honno, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod swyddogaethau a bennir yn y cyfarwyddyd i'w harfer ganddynt hwy yn hytrach na chan berson penodedig mewn perthynas â chais.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 12 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 fel bod ffi o dan y rheoliad hwnnw ar gyfer penderfynu cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50 megawat yn daladwy dim ond pan wneir y penderfyniad hwnnw gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chan berson penodedig, o ganlyniad i gyfarwyddyd o dan baragraff 9 o Atodlen 4D i DCGTh 1990.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 333(3E) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2024 Rhif (Cy. )

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *6 Ionawr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 303(1B)(a) a (5) a 333(2A) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 333(3E) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**), gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 a deuant i rym ar 6 Ionawr 2025.

---

(**1**) 1990 p. 8. Amnewidiwyd adran 303 gan adran 199 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29), mewnosodwyd is-adran (1B) gan baragraff 18 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"). Mewnosodwyd adran 333(2A) gan baragraff 14(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5).

(**2**) Mewnosodwyd adran 333(3E) gan baragraff 3 o Atodlen 7 i Ddeddf 2015.

**Diwygiadau i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016**

**2.** Mae rheoliad 12 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff (1A), yn lle'r geiriau o "rheoliad 3(1)(ab)" i "2016" rhodder "paragraff (1B)";

(b) ar ôl paragraff (1A) mewnosoder—

"(1B) Mae datblygiad o fewn y paragraff hwn os ydyw—

(a) o fewn rheoliad 3(1)(a) neu (aa) o Reoliadau 2016 ac—

(i) yn achos adeiladu naill ai gorsaf gynhyrchu neu orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, disgwylir i'r orsaf gynhyrchu neu'r orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, pan gaiff ei hadeiladu, fod â gallu cynhyrchu gosodedig o lai na 50 megawat; neu

(ii) yn achos estyn neu addasu naill ai gorsaf gynhyrchu neu orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, disgwylir i'r estyniad neu'r addasiad gynyddu'r gallu cynhyrchu gosodedig o lai na 50 megawat; neu

(b) o fewn rheoliad 3(1)(ab) (gosod llinell drydan uwchben y ddaear) o Reoliadau 2016.";

(c) yn lle paragraff 10 rhodder—

"(10) Yn y rheoliad hwn—

mae i "gorsaf gynhyrchu" ("*generating station*"), "gallu cynhyrchu gosodedig" ("*installed generating capacity*") a "gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir" ("*onshore wind generating station*") yr ystyron a roddir yn rheoliad 4(3) o Reoliadau 2016;

mae "penderfynu cais" ("*determining an application*") yn cynnwys penderfynu unrhyw gydsyniadau eilaidd sy'n gysylltiedig â'r cais pan fo'r penderfyniad ar y cydsyniadau hynny i'w wneud gan Weinidogion Cymru;

ystyr "Rheoliadau 2016" ("*the 2016 Regulations*") yw Rheoliadau Datblygiadau

(**1**) 2016/57 (Cy. 27). Diwygiwyd rheoliad 12 gan O.S. 2019/283 (Cy. 65).

o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016.”

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad